# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 25 Mai, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, I.R. Buckley, C.A. Cave, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams ac M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks a W.A. Hennessy.

## 65 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 66 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir.

## 67 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 68 IS-BWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS (CL) –

PENDERFYNWYD – Ail-benodi'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n cynnwys pum Aelod fel y nodir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Cadarnhau penodiad yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer 2023/24.

69 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r ceisiadau rheoliadau adeiladu a basiwyd, fel y'u rhestrir yn Adran A yr adroddiad

(2) Y DYLID nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.

(3) NODI cyflwyno Hysbysiadau o dan Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr a Gymeradwywyd ac ati) 2000, fel y'u rhestrir yn Adran C yr adroddiad.

70 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 9 trwy 19, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

71 APELIADAU (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r Apêl a dderbyniwyd yn dilyn gwrthodiad y Cyngor i roi caniatâd cynllunio, fel y manylwyd arno yn Adran A yr adroddiad.

(2) NODI'r Apêl Gorfodaeth, fel y manylwyd arni yn Adran B yr adroddiad.

(3) Y DYLID nodi nad oedd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Cynllunio wedi dod i law ar adeg cynnal y cyfarfod.

(4) Y DYLID nodi nad oedd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi wedi'u derbyn ar adeg y cyfarfod.

(5) BOD yr ystadegau sy'n ymwneud ag apeliadau am y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024, fel y manylir yn Adran E yr adroddiad, yn cael eu nodi.

72 COED (PDC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD – Y DYLID nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 22 a 23, fel y penderfynir gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy o dan bwerau dirprwyedig.

73 CEISIAD CYNLLUNIO (PDC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y dylid penderfynu ar y cais canlynol fel y nodwyd a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

**2022/00602/RES** Derbyniwyd ar 12 Mai 2022
(T24)
**YMGEISYDD:** Tai Wales & West, d/o Asient
**ASIENT:** Gwen Thomas, Unit 9, Oak Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

**Tir yn Heol y Pentir, Y Rhws**

Cais Materion Wrth Gefn Arfaethedig ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig.

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

74 MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Y DYLID ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

75 ADRODDIAD YR YMGYNGHORYDD ALLANOL A BENODWYD AR GAIS 2019/00871/ ALLAN TIR AR FFERM MODEL -
**(Mater y mae'r Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys oherwydd yr angen i nodi rhesymau tybiedig y Cyngor dros wrthod y Cais)**

Roedd hwn yn gais hybrid yn cynnwys cais amlinellol ar gyfer dymchwel adeiladau presennol a chodi Parc Busnes Dosbarth B1/B2/B8 44.75 hectar, mannau parcio ceir, tirlunio, seilwaith draenio, mesurau lliniaru ecolegol a gwaith ategol (cedwir pob mater yn ôl ac eithrio mynediad) o fewn Ardal A a chais llawn ar gyfer newid defnydd o dir amaethyddol i barc gwledig (Dosbarth Defnydd D2) o fewn Ardal B.

Ar 18 Mai 2023, cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Cynllunio arbennig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cais cynllunio uchod.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr Ymgeiswyr wedi cyflwyno apêl i Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PCAC), gan nodi'r rheswm dros yr Apêl (O dan adran F o'r ffurflenni apêl) fel: 'Methiant yr Awdurdod Cynllunio Lleol i roi ei benderfyniad o fewn y cyfnod priodol (8 wythnos fel arfer) ar gais am ganiatâd cynllunio'.

Roedd cyflwyno'r Apêl yn erbyn penderfyniad yn golygu bod unrhyw benderfyniad ffurfiol ar y cais bellach wedi'i gymryd allan o reolaeth yr Aelodau, a'i fod bellach o fewn awdurdodaeth PCAC.

Yn unol â'r cyngor a roddwyd gan ymgynghorwyr allanol yn y cyfarfod, trafododd yr Aelodau y rhesymau penodol dros wrthod y byddent wedi'i ddarparu pe byddent wedi cael cyfle i benderfynu ar y cais ac wedi hynny fe bleidleision nhw ar a oeddent yn dymuno amddiffyn yr Awdurdod yn yr Apêl.

Pasiwyd y Cynnig i gefnogi amddiffyn yr Awdurdod ac mewn ymgynghoriad â'r ymgynghorwyr proffesiynol allanol, cytunwyd ar y rhesymau tebygol canlynol dros wrthod:

1. Yn absenoldeb arfarniad ecolegol cychwynnol cyfoes, mae'r datblygiad arfaethedig yn methu ag arfarnu'r buddion bioamrywiaeth ar y safle hwn. Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn methu ag ymgorffori, cadw neu wella buddion bioamrywiaeth, gan nad yw'r buddion bioamrywiaeth hynny wedi'u meintioli yn y lle cyntaf. O ganlyniad, mae'r datblygiad yn groes i ofynion Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) Maen 10, MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) ac MG19 (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd) Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026, canllawiau o fewn y CCA Bioamrywiaeth a Datblygu; Canllawiau cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021).

2. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn rhinwedd ei gynllun, ei raddfa a'i faint yn cael effaith niweidiol ar leoliad asedau hanesyddol. Ni ystyrir bod manteision y cynllun yn gorbwyso'r niwed a nodwyd i'r asedau treftadaeth dynodedig. Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn groes i Bolisïau SP10 (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol) a MD8 (Amgylchedd Hanesyddol) Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026, canllawiau o fewn CCA Cynllun Rheoli ac Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth Porthceri, canllawiau cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021) a Nodyn cyngor technegol (NCT) 24 (yr amgylchedd hanesyddol).

Er hynny, cododd yr Aelodau wrthwynebiad ychwanegol i'r datblygiad arfaethedig ar sail argyfwng hinsawdd, gan nodi datganiad yr Awdurdod i lynu at y Siarter Argyfwng Hinsawdd gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro a Chynllun Her Prosiect Sero.

Wrth adolygu'r ddogfen gyhoeddedig, nid oedd yr ymgynghorydd proffesiynol allanol o'r farn y byddai Cynllun Her Prosiect Sero yn gyfystyr â Pholisi Cynllunio neu Ganllawiau mabwysiedig, gan y byddai gwrthwynebiad o'r fath yn seiliedig ar y seiliau hyn yn anodd iawn i'w amddiffyn mewn Apêl.

Fodd bynnag, roedd Cynllun Her Prosiect Sero yn seiliedig ar ac yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Cenedlaethol Cymru’r Dyfodol 2040 a’r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor nid yn unig i sicrhau datblygiadau cynaliadwy, ond hefyd i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i gyflawni ei nodau datblygu cynaliadwy (neu les).

Wrth ystyried gofynion Adran 3 'Dyletswyddau lles ar gyrff cyhoeddus' ac Adran 5 'Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gellid dadlau'n rhesymol nad yw'r datblygiad yn cefnogi egwyddor gynaliadwy Rhif 2, sy'n nodi:

2. Cymru gydnerth. Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy’n cynnal gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a’r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

Mae Cymru’r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi ei fod yn gynllun datblygu ag iddo strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy’r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch yn wyneb yr argyfwng hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

Wrth adolygu blaenoriaethau a pholisïau cenedlaethol allweddol y Cynllun Cenedlaethol, gellid dadlau'n rhesymol bod y datblygiad wedi methu â datblygu ecosystemau cryf.

O ystyried yr uchod, argymhelliad yr ymgynghorwyr proffesiynol allanol oedd bod y rheswm cyntaf dros wrthod yn cael ei ddiwygio i nodi;

1. Yn absenoldeb arfarniad ecolegol cychwynnol cyfoes, mae'r datblygiad arfaethedig yn methu ag arfarnu'r buddion bioamrywiaeth ar y safle hwn. Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn methu ag ymgorffori, cadw neu wella buddion bioamrywiaeth, gan nad yw'r buddion bioamrywiaeth hynny wedi'u meintioli yn y lle cyntaf. O ganlyniad, mae'r datblygiad yn groes i ofynion Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) Maen 10, MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) ac MG19 (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd) Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026, canllawiau o fewn y CCA Bioamrywiaeth a Datblygu; Canllawiau cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021), Polisi 9 Cynllun Cenedlaethol Cymru’r Dyfodol 2040 ac Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Rhif 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wedi ystyried adroddiad yr ymgynghorydd allanol a benodwyd, yr oedd

PENDERFYNWYD –

(1) YMHELLACH i’r drafodaeth ar y mater yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio ar 1 Mawrth, 2023 a 18 Mai, 2023 a chynnwys yr adroddiad hwn, cymeradwyir y rhesymau tybiedig canlynol dros wrthod:

(i) Yn absenoldeb arfarniad ecolegol cychwynnol cyfoes, mae'r datblygiad arfaethedig yn methu ag arfarnu'r buddion bioamrywiaeth ar y safle hwn. Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn methu ag ymgorffori, cadw neu wella buddion bioamrywiaeth, gan nad yw'r buddion bioamrywiaeth hynny wedi'u meintioli yn y lle cyntaf. O ganlyniad, mae'r datblygiad yn groes i ofynion Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) Maen 10, MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) ac MG19 (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd) Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026, canllawiau o fewn y CCA Bioamrywiaeth a Datblygu; Canllawiau cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021), Polisi 9 Cynllun Cenedlaethol Cymru’r Dyfodol 2040 ac Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Rhif 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;

A

(ii) Byddai'r datblygiad arfaethedig yn rhinwedd ei gynllun, ei raddfa a'i faint yn cael effaith niweidiol ar leoliad asedau hanesyddol. Ni ystyrir bod manteision y cynllun yn gorbwyso'r niwed a nodwyd i'r asedau treftadaeth dynodedig. Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn groes i Bolisïau SP10 (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol) a MD8 (Amgylchedd Hanesyddol) Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026, canllawiau o fewn CCA Cynllun Rheoli ac Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth Porthceri, canllawiau cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021) a Nodyn cyngor technegol (NCT) 24 (yr amgylchedd hanesyddol).

(2) AWDURDODI Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol i benodi ymgynghorwyr allanol i gynnal yr apêl ar ran y Cyngor.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Darparu ar gyfer penodi ymgynghorwyr allanol i baratoi amddiffyniad y Cyngor i’r apêl diffyg penderfyniad.